Medi 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned a Thref 2013-14

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Ers 2011-12, mae cynghorau lleol yng Nghymru wedi gwneud cynnydd i wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu. Dangosir hyn gan welliannau o ran amseroldeb y broses o lunio'r cyfrifon a'r ffaith bod nifer y barnau archwilio amodol yn parhau i leihau. Fodd bynnag, mae nifer y barnau archwilio amodol a methiannau o ran llywodraethu ariannol yn dal i fod yn rhy uchel.

Roedd y tîm a fu’n gyfrifol am lunio’r adroddiad hwn yn cynnwys Anthony Barrett a Deryck Evans.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw. Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 6

1 Er bod amseroldeb cyfrifon ym mhob rhan o'r sector yn parhau i wella, erys cnewyllyn bach o gynghorau sy'n methu â darparu cyfrifon cyflawn a chywir na gwybodaeth arall i'w harchwilio yn amserol 7

Ers 2011-12 gwelwyd gwelliant sylweddol o ran amseroldeb y broses o lunio cyfrifon archwiliedig 8

Erys cnewyllyn bach o gynghorau sydd â mwy na blwyddyn o gyfrifon nas archwiliwyd erbyn y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig 9

2 Mae nifer y barnau archwilio amodol yn parhau i leihau ond mae gormod o gynghorau wedi cael barn archwilio amodol ar gyfer dwy o'r tair blynedd diwethaf neu fwy 10

Mae nifer y cynghorau â barn archwilio amodol wedi lleihau am yr ail flwyddyn yn olynol 11

Mae nifer annerbyniol o uchel o gynghorau wedi cael barn archwilio amodol ar gyfer dwy o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf neu fwy 12

3 Mae cynghorau yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond mae tystiolaeth o fethiant parhaus i gydymffurfio â gofynion statudol 15

4 Gall cynghorau lleol ddysgu gwersi o adroddiad yr archwilydd penodedig er budd y cyhoedd 19

Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas â chyfrifon 2013-14 a ddeilliodd o fethiannau parhaus mewn trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu yng Nghyngor Cymuned Mawr 20

Ni wnaed unrhyw argymhellion statudol ar wahân yn ystod 2014 21

5 Er mwyn helpu cynghorau i wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, bydd archwilwyr cynghorau lleol, ar gyfer archwiliad 2015-16, yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau ac ar gyfer defnyddio gwasanaethau archwilwyr mewnol 22

Bydd archwilwyr yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau 23

Bydd archwilwyr yn adolygu’r telerau ymgysylltu ar gyfer archwilwyr mewnol 24

Atodiadau

Atodiad 1 – Y fframwaith atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau lleol 26

Atodiad 2 – Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol 27

## Cyflwyniad

1 Mae gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned (cynghorau lleol), gyfrifoldeb i ddinasyddion Cymru i ystyried y modd y maent yn stiwardio'r arian cyhoeddus yn eu gofal. Y brif ffordd o wneud hyn yw drwy baratoi cyfrifon blynyddol sy'n destun archwiliad allanol annibynnol.

2 Tynnodd adroddiadau blaenorol[1] gan yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y materion mwyaf cyffredin a nodwyd gan archwilwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan gynghorau lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn a nodi meysydd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn canolbwyntio arnynt wrth archwilio cyfrifon 2015-16.

1 Gwella Trefniadau Rheoli Ariannol a Llywodraethu: **Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cynghorau Cymuned 2011-12 a Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol yn 2012-13**

## Rhan 1

Er bod amseroldeb cyfrifon ym mhob rhan o'r sector yn parhau i wella, erys cnewyllyn bach o gynghorau sy'n methu â darparu cyfrifon cyflawn a chywir na gwybodaeth arall i'w harchwilio yn amserol




3 Er mwyn lleihau'r gost a'r amser sydd ei angen i gynnal yr archwiliad, mae'n bwysig bod cynghorau'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r archwilydd, a bod y wybodaeth honno'n gyfredol, yn gyflawn ac yn gywir.

## Ers 2011-12 gwelwyd gwelliant sylweddol o ran amseroldeb y broses o lunio cyfrifon archwiliedig

4 Mae Llywodraeth Cymru'n annog mwy o dryloywder gan gyrff cyhoeddus i egluro sut maent yn defnyddio arian cyhoeddus. Mae gan etholwyr lleol yr hawl i weld sut mae eu cyngor lleol wedi gwario'r arian a gasglwyd ganddo o ffioedd a thaliadau neu drwy'r praesept blynyddol, o'r dreth gyngor. Nid yw cynghorau sy'n methu â chyhoeddi ffurflen flynyddol yn amserol yn darparu'r lefel ofynnol hon o atebolrwydd cyhoeddus. Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r cynnydd a wnaed gan gynghorau yng Nghymru ers 2011-12.

Arddangosyn 1 - Cwblhau gwaith archwilio ar gyfrifon rhwng 2011-12 a 2013-14




5 Nod archwilwyr yw cwblhau eu gwaith archwilio a chyhoeddi eu tystysgrif a'u barn mewn da bryd i alluogi cynghorau lleol i gyhoeddi eu ffurflen flynyddol gyda barn archwilio erbyn 30 Medi fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru).

6 Erbyn 30 Medi 2014, roedd archwilwyr wedi cyhoeddi'r farn a'r dystysgrif ar ffurflen flynyddol 2013-14 mewn 696 o gynghorau (94 y cant). Dengys hyn fod y sector yn parhau i wneud cynnydd cyson, gan gynyddu o 91 y cant ar gyfer cyfrifon 2012-13 a 87 y cant ar gyfer cyfrifon 2011-12. Fodd bynnag, yn hyn o beth, mae Cymru gryn dipyn ar ei hôl hi o'i chymharu â Lloegr. Fel y dangoswyd yn Arddangosyn 1, yn Lloegr, cafodd 98 y cant o gynghorau plwyf eu barn archwilio a'u tystysgrif erbyn 30 Medi 2014.

7 Erbyn 31 Rhagfyr 2014, roedd nifer yr archwiliadau a gwblhawyd wedi cynyddu i 723 (98 y cant); mae hyn yn debyg i gyfrifon 2012-13. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod bron 15 (2 y cant) o gynghorau o hyd nad oeddent wedi cael barn archwilio dri mis ar ôl y dyddiad cau. Mae'r oedi hwn yn deillio o'r ffaith nad yw cynghorau'n rhoi tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r farn archwilio neu'n methu ag anfon ffurflenni blynyddol a gymeradwywyd at yr archwilydd, neu gellir ei briodoli i ymholiadau gan yr archwilydd nas datryswyd.

## Erys cnewyllyn bach o gynghorau sydd â mwy na blwyddyn o gyfrifon nas archwiliwyd erbyn y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig

8 Yn ogystal â ffurflenni blynyddol hwyr 2012-13, er gwaethaf amryw negeseuon atgoffa gan archwilwyr, ar 30 Medi 2014, roedd pum cyngor (2012-13 – saith) wedi methu â llunio neu ddarparu ffurflen flynyddol ar gyfer 2013-14 i gefnogi'r ffurflen flynyddol am hyd at bedair o'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

9 Er bod hyn yn well na 2012-13, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn pryderu am y methiant parhaus i gyhoeddi ffurflen flynyddol archwiliedig yn amserol. Yn ein barn ni, mae'n annerbyniol bod cynghorau lleol a ariennir gan arian cyhoeddus yn methu â chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i baratoi datganiadau o gyfrifon i'w harchwilio. Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r cynghorau hynny ag archwiliadau heb eu cwblhau a oedd ar agor o hyd oherwydd:

a roedd y cyngor wedi methu â pharatoi cyfrifon blynyddol na darparu tystiolaeth ddigonol i alluogi archwilwyr i roi barn ac felly gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y ddeddf; neu

b roedd yr archwilydd yn gwneud gwaith ychwanegol i ystyried afreoleidd-dra posibl.

Arddangosyn 2 - Cynghorau lle roedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol ar agor o hyd ar 30 Medi 2014

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Machynlleth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Banwy | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned St Florence | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Cymuned Mawr | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyngor Tref Cydweli | | | | ✓ | ✓ |

10 Cafodd yr archwiliadau oedd i'w cwblhau ar gyfer cynghorau Banwy, St Florence, Mawr a Chydweli eu cwblhau yn ystod 2015. Roedd yr archwiliadau oedd i'w cwblhau ar gyfer Cyngor Cymuned Machynlleth yn dal ar agor ar 9 Medi 2015.

Rhan 2

# Mae nifer y barnau archwilio amodol yn parhau i leihau ond mae gormod o gynghorau wedi cael barn archwilio amodol ar gyfer dwy o'r tair blynedd diwethaf neu fwy



11 Mae archwilwyr yn amodi eu barn ar y ffurflen flynyddol oherwydd materion a nodwyd yn y datganiad cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gall amod ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ymwneud ag un neu fwy o honiadau a wnaed gan y Cyngor.


12 Dylid nodi y gellir osgoi holl amodau barn archwilio os oes gan gynghorau unigol drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith a'u bod yn dilyn y camau syml sydd eu hangen i baratoi cyfrifon blynyddol a'u cyflwyno i'w harchwilio.

13 Rhwng 2011-12 a 2013-14, mae archwilwyr wedi amodi eu barn archwilio ar gyfer un flwyddyn ariannol neu fwy mewn 241 o gynghorau. Mae hyn yn cyfateb i 33 y cant o'r holl gynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

## Mae nifer y cynghorau â barn archwilio amodol wedi lleihau am yr ail flwyddyn yn olynol

14 Yn gyffredinol, mae'r duedd ostyngol o ran nifer y cynghorau â barn archwilio amodol ym mhob blwyddyn yn parhau fel y dangosir yn Arddangosyn 3. Rhoddodd archwilwyr farn archwilio amodol ar 85 (11.5 y cant) o ffurflenni blynyddol 2013-14; mae hyn gryn dipyn yn well na 2012-13 (113 amodol - 15 y cant) a 2011-12 (130 amodol - 18 y cant).

Arddangosyn 3 - Canran y barnau archwilio amodol ar gyfer 2011-12 i 2013-14



15 Mae nifer y cynghorau lle yr amododd archwilwyr y farn archwilio ar gyfer dau fater ar wahân neu fwy hefyd wedi lleihau o 38 yn 2012-13 i 26 yn 2013-14.

16 Serch hynny, mae mwy nag un o bob 10 cyngor yng Nghymru yn methu â chyrraedd y safonau llywodraeth gofynnol o hyd. Mae angen i gynghorau lleol barhau i ganolbwyntio ar wella eu trefniadau llywodraethu a chydymffurfiaeth.

## Mae nifer annerbyniol o uchel o gynghorau wedi cael barn archwilio amodol ar gyfer dwy o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf neu fwy

17 Cafodd 45 o gynghorau yng Nghymru (6 y cant) farn archwilio amodol ar gyfer dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

18 Rhaid nodi'n benodol y 19 o gynghorau (3 y cant) a restrir yn Arddangosyn 4 y mae eu ffurflenni blynyddol wedi cael eu hamodi ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

19 Mae'n destun pryder bod 14 o'r 19 o gynghorau hyn wedi cael yr un amodau bob blwyddyn. Awgryma'r ffaith bod y farn archwilio wedi'i hamodi dro ar ôl tro yn y cynghorau hyn fod gwendidau systemig yn eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu neu nad oes ganddynt ymrwymiad na'r gallu i wneud pethau yn iawn.

20 Yn ogystal â barn archwilio ar gyfer 2013-14, cafodd y 26 o gynghorau a restrir yn Arddangosyn 5 farn archwilio amodol naill ai ar gyfer 2012-13 neu 2011-12 hefyd. Cafodd 10 o'r cynghorau hyn amodau am yr un rhesymau am y ddwy flwyddyn ariannol.

21 Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n annerbyniol bod Cynghorau'n methu â mynd i'r afael â gwendidau yn eu trefniadau llywodraethu pan fydd yr archwilydd allanol yn dwyn y materion hyn i'w sylw.

22 Os yw'r amodau hyn yn deillio o fethiant y cyngor i gymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion y tynnwyd ei sylw atynt yn flaenorol, anogir archwilwyr penodedig i ystyried pa un a yw'r materion hyn yn rhai y dylid tynnu sylw'r cyhoedd atynt ar lefel leol. Ar gyfer 2014-15, bydd archwilwyr penodedig yn ystyried pa un a yw'r materion hyn yn rhai y dylid hysbysu eu cymunedau amdanynt er budd y cyhoedd a pha un a ddylid gwneud argymhellion statudol ar gyfer gwella. Os bydd archwilwyr yn arfer y pwerau hyn, bydd cost ychwanegol i'r cyngor yn nhermau ffioedd archwilio ychwanegol ac o bosibl gyhoeddusrwydd lleol anffafriol, yn ogystal â cholli ymddiriedaeth ymhlith cymunedau lleol o bosibl.

Arddangosyn 4 - Cynghorau â barn archwilio amodol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf

| Cyngor | Yr un materion |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Aber | Oes |
| Cyngor Tref Llansawel | Oes |
| Cyngor Cymuned Capel Curig | Oes |
| Cyngor Cymuned Cynwyd | Oes |
| Cyngor Cymuned Dinas | Oes |
| Cyngor Cymuned y Faenor | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Henryd | Oes |
| Cyngor Cymuned Llaneugrad | Oes |
| Cyngor Cymuned Llanfarian | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant | Oes |
| Cyngor Cymuned Llanpumsaint | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Mawr | Oes |
| Cyngor Cymuned Moelfre | Oes |
| Cyngor Cymuned Pentir | Oes |
| Cyngor Cymuned Queensferry | Oes |
| Cyngor Cymuned Rhoscolyn | Oes |
| Cyngor Cymuned Trefalaw | Oes |
| Cyngor Cymuned Trefeurig | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth | Nac oes |

Arddangosyn 5 - Cynghorau â barn archwilio amodol ar gyfer 2013-14 a 2012-13 neu 2011-12

| Cyngor | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | Yr un materion |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Beddgelert | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Brymbo | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Clyne a Melincourt | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Genau'r Glyn | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llanbedrog | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Llanddowror and Llanmilo | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llanhenwg | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llanwern | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Melindwr | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Tref Trefaldwyn | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Tref Pencoed | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Penyffordd | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Tref Sanclêr | | Oes | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Gwynllŵg | | Oes | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Blaengwrach | Oes | | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Bodfari | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Caeriw | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Ganllwyd | Oes | | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Gwyddelwern | Oes | | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Llanbadrig | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llandyrnog | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Llanofer | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Cymuned Nefyn | Oes | | Oes | Nac oes |
| Cyngor Tref Neyland | Oes | | Oes | Oes |
| Cyngor Cymuned Rhiwabon | Oes | | Oes | Nac oes |

## Rhan 3


# Mae cynghorau yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond mae tystiolaeth o fethiant parhaus i gydymffurfio â gofynion statudol



23 Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau'n ymwneud â'r honiadau a wnaed gan gynghorau yn eu Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae cynghorau'n gwneud datganiad cadarnhaol eu bod wedi gwneud popeth sy'n ofynnol ohonynt. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn nodi'r honiadau a wnaed gan gynghorau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn rhoi esboniad byr o'r hyn y mae'r sicrwydd a roddwyd gan gyngor yn ei olygu.

24 Mewn llawer o achosion, pan fydd archwilwyr yn archwilio'r honiadau hyn, byddant yn gweld, er bod cynghorau wedi rhoi ymateb cadarnhaol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, nad ydynt mewn gwirionedd wedi bodloni'r gofynion cysylltiedig. Mewn achosion o'r fath, mae archwilwyr yn amodi eu barn archwilio. Dengys Arddangosyn 6 nifer yr amodau sy'n ymwneud â phob un o'r honiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae rhai cynghorau lleol wedi cael barn amodol yn ymwneud â dau honiad neu fwy.

Arddangosyn 6 - Nifer yr amodau sy'n ymwneud â phob honiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol




25 Mae Arddangosyn 6, er ei fod yn dangos nifer sylweddol o amodau yn erbyn sawl honiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn dangos rhywfaint o welliant o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

26 Y rheswm mwyaf cyffredin dros amodau yn ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14 oedd methiant i baratoi a/neu gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar amser (honiad 1). Er mai hwn yw'r amod archwilio mwyaf cyffredin o hyd, gyda 40 o gynghorau yn cael eu hamodi yn 2013-14 (5 y cant), bu gwelliant sylweddol o gymharu â 2012-13 (62 – 8 y cant) a 2011-12 (69 – 9 y cant).

27 Fel yn 2012-13, mae'r ail reswm mwyaf cyffredin dros amodau ar gyfer 2013-14 yn ymwneud ag asesu a rheoli risgiau ariannol a risgiau eraill (honiad 5). Mae'r rheoliadau statudol yn nodi bod cynghorau lleol yn gyfrifol am sicrhau a rhoi system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n eu helpu i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau rheoli risg. Mae archwilwyr yn amodi eu barn oherwydd methiant y cyngor i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Ni fu unrhyw welliant ar draws y sector eleni ac mae'n siomedig nodi bod asesu risg wedi bod yn thema amodi sydd wedi codi dro ar ôl tro ers sawl blwyddyn.

28 Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (honiad 3), mae cynghorau'n cadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar y cyngor. Mae ateb cadarnhaol i'r honiad hwn yn golygu mai dim ond y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud y mae'r Cyngor wedi eu gwneud a'i fod wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. Fodd bynnag, ar gyfer 2013-14, yn wahanol i'r duedd gyffredinol, mae nifer yr amodau sy'n ymwneud â'r honiad hwn wedi cynyddu.

29 Mae'r archwilwyr yn profi honiadau'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar sail sampl ac wedi nodi'r materion canlynol mewn perthynas â chyfreithlondeb. Ym mhob un o'r achosion hyn, cadarnhaodd y cynghorau eu bod yn bodloni gofynion statudol ond mae'r archwilydd wedi canfod nad ydynt yn gwneud hynny. Er enghraifft:

a Pennu cyllideb: Nododd yr archwilwyr naw cyngor a oedd wedi methu â chyfrifo eu gofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Bydd hwn yn faes y bydd archwiliadau 2015-16 yn canolbwyntio'n benodol arno.

b Trefniadau Talu Wrth Ennill (TWE): Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn cyflogi clerc ac yn talu cyflog neu lwfansau eraill iddo. Rhaid iddynt felly weithredu system TWE er mwyn didynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol cyn ei dalu. Roedd TWE hefyd yn fater pwysig yr adroddwyd arno ar gyfer 2011-12 a 2012-13.

c Cod ymddygiad aelodau: Rhaid i gynghorau sicrhau bod pob aelod wedi cytuno i weithredu yn unol â chod ymddygiad aelodau. Mae'r archwilwyr yn parhau i nodi enghreifftiau lle nad yw aelodau wedi ymrwymo i god ymddygiad.

ch Dirprwyo awdurdod: O dan statud ni all cynghorau lleol ond wneud trefniadau ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau gan bwyllgor, is-bwyllgor neu un o swyddogion y cyngor. Fodd bynnag, dirprwyodd un cyngor awdurdod i aelod unigol.

d Benthyca: Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru sydd am fenthyca arian at ddibenion cyfalaf gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer benthyciad o'r fath. Nododd yr archwilwyr achosion lle y cafodd cynghorau fenthyciadau heb geisio cymeradwyaeth yn gyntaf.

30 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi hawliau amrywiol i etholwyr lleol mewn perthynas â chyfrifon cynghorau. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i arolygu'r cyfrifon a mynd i'r afael â chwestiynau neu wneud gwrthwynebiadau i eitem cyfrif i'r archwilydd allanol. Mae cynghorau lleol yn gyfrifol am helpu eu hetholwyr i arfer yr hawliau hyn ac am gadarnhau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu bod wedi gwneud hynny (honiad 4). Un ffordd o wneud hyn yw rhoi hysbyseb mewn man amlwg yn dweud wrth y cyhoedd y bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn fuan. Mae amod archwilio yn y maes hwn yn golygu bod cynghorau wedi methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i hysbysebu'r archwiliad neu wneud trefniadau digonol i etholwyr lleol arfer eu hawliau. Mae hwn yn faes arall lle mae cynghorau lleol wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd mewn adroddiadau blaenorol. Ar gyfer 2013-14, dim ond mewn naw achos (1 y cant) yr amododd yr archwilwyr eu barn archwilio o gymharu â 29 o achosion (3 y cant) yn 2012-13 ac 28 o achosion (4 y cant) yn 2011-12.

# Rhan 4

## Gall cynghorau lleol ddysgu gwersi o adroddiad yr archwilydd penodedig er budd y cyhoedd



31 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae archwilwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau a'u hargymhellion i'r cyngor drwy'r dystysgrif archwilio (y farn archwilio) ac adroddiad i'r cyngor. Mae archwilwyr yn cyflwyno'r adroddiadau hyn i'r cyngor ar ddiwedd yr archwiliad er mwyn nodi canfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annog archwilwyr i ddatrys problemau gyda chynghorau lle bynnag y bo'n bosibl drwy'r ffyrdd hyn.

32 Fodd bynnag, os na ellir datrys problemau, neu os bydd yr archwilydd o'r farn y dylai'r problemau a nodwyd gael eu hadrodd yn ehangach, mae gan yr archwilydd ddulliau eraill o hyrwyddo gwelliannau i drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cefnogi archwilwyr sy'n ystyried bod angen cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd o dan adran 22 o'r Ddeddf a/neu wneud argymhellion (statudol) o dan adran 22 o'r Ddeddf. Rhaid i gynghorau drafod adroddiadau budd y cyhoedd ac argymhellion o dan adran 25 mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

33 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell y dylai pob cyngor ystyried y materion canlynol a pha un a allant fod yn gymwys iddynt hwy a pha un a oes gwersi y gall cynghorau unigol eu dysgu o'r argymhellion statudol hyn.

## Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas â chyfrifon 2013-14 a ddeilliodd o fethiannau parhaus mewn trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu yng Nghyngor Cymuned Mawr

34 Ym mis Ionawr 2015, arferodd yr archwilydd penodedig ei bŵer o dan adran 22 o'r Ddeddf i lunio adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas â Chyngor Cymuned Mawr.

35 Roedd yr archwilydd penodedig wedi cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd mewn perthynas â Chyngor Cymuned Mawr ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn nodi methiannau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol a rheolaeth fewnol yn y cyngor. Yn y cyfamser, daeth materion eraill i sylw'r archwilydd a oedd yn peri pryder:

a nad oedd y cyngor wedi dysgu'r gwersi a nodwyd yn adroddiad Rhagfyr 2011; a

b bod y cyngor yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol o hyd.

36 Yn adroddiad 2015, daeth yr archwilydd i'r casgliadau canlynol:

a nad oedd cynghorwyr unigol yn deall eu rolau na'u cyfrifoldebau yn llawn a'u bod yn anwybyddu trefniadau llywodraethu priodol;

b nid oedd y cyngor wedi pennu cyllideb gyfreithlon ar gyfer 2012-13 na 2013-14;

c roedd penderfyniadau anghyfreithlon wedi'u gwneud oherwydd methiannau yn ei drefniadau ar gyfer gweinyddu cyfarfodydd;

ch roedd cydberthynas amhriodol rhwng y cyngor ac ymddiriedolaeth ddatblygu leol wedi arwain at gynnal trafodion anghyfreithlon;

d roedd y cyngor wedi cael benthyciad heb awdurdodiad priodol gan Lywodraeth Cymru; ac

dd roedd y cyngor yn cadw cofnodion gwael.

## Ni wnaed unrhyw argymhellion statudol ar wahân yn ystod 2014

37 Mae'r archwilwyr wedi nodi na chyhoeddwyd unrhyw argymhellion statudol yn ystod 2014 heblaw am y rhai a gynhwyswyd yn yr adroddiad er budd y cyhoedd. Cafodd tri chyngor yng Nghymru argymhellion statudol mewn perthynas ag archwiliadau 2012-13.

## Rhan 5

# Er mwyn helpu cynghorau i wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, bydd archwilwyr cynghorau lleol, ar gyfer archwiliad 2015-16, yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau ac ar gyfer defnyddio gwasanaethau archwilwyr mewnol



38 Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Gwella Rheoli Ariannol a Llywodraethu: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cyngor Cymuned 2011-12**, a godwyd ym mis Medi 2013, newidiadau i'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau tref a chymuned mewn perthynas ag archwiliad 2015-16.

39 Bydd y trefniadau newydd yn canolbwyntio'n fwy ar lywodraethu a bydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol estynedig yn cynnwys adran newydd yn nodi meysydd 'thematig' i'w hadolygu ym mhob cyngor. Bydd y themâu hyn yn amrywio bob blwyddyn ac yn mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ganfyddiadau archwiliad.

40 Er mwyn galluogi cynghorau lleol i ddatblygu eu trefniadau llywodraethu, bydd cynghorau cymuned a thref yn cael gwybod ymlaen llaw pa feysydd penodol fydd yn rhan o'r adolygiad thematig bob blwyddyn. Bydd y trefniant hwn yn galluogi cynghorau i nodi meysydd lle mae angen iddynt wella eu trefniadau ac i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dylid nodi na ddylai hyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wneud unrhyw waith ychwanegol sylweddol. Dim ond tystiolaeth a ddylai fod ar gael yn hawdd ym mhob cyngor y bydd archwilwyr yn gofyn amdani.

41 Fel y nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol 2012-13**, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, ar gyfer archwiliadau 2015-16, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar brosesau pennu a monitro cyllidebau a'r defnydd a wnaed o'r Gwasanaeth Archwiliol Mewnol.

42 Cyhoeddir y meysydd ffocws ar gyfer archwiliadau 2016-17 yn ystod hydref 2015.

## Bydd archwilwyr yn archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer pennu a monitro cyllidebau

43 Rhaid i gynghorau bennu eu cyllideb bob blwyddyn yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989. Ceir canllawiau ar bennu cyllideb yn y Canllaw i Ymarferwyr. Gofynnir i gynghorau gadarnhau eu bod wedi pennu'r gyllideb yn unol â'r ddeddf a'u bod wedi monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

44 Bydd archwilwyr yn disgwyl i gynghorau allu darparu'r dystiolaeth ganlynol i gefnogi honiad cadarnhaol:

a copi o gyllideb a baratowyd yn unol â'r ddeddf;

b copi o gofnodion cyfarfod y cyngor lle cafodd y gyllideb ei chymeradwyo a'r praesept ei bennu;

c copi o'r archeb praesept a gyflwynwyd i'r awdurdod bilio;

ch enghreifftiau o adroddiadau monitro cyllidebol i'r cyngor; a

d chopïau o gofnodion cyfarfodydd cyngor yn nodi sut mae'r cyngor yn monitro ei incwm a'i wariant yn erbyn ei gyllideb.

## Bydd archwilwyr yn adolygu’r telerau ymgysylltu ar gyfer archwilwyr mewnol

45 Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o’i gofnodion cyfrifyddu a’i reolaethau mewnol. Ceir canllawiau ar waith archwilio mewnol yn y Canllaw i Ymarferwyr.

46 Bydd archwilwyr yn disgwyl i gynghorau allu darparu’r dystiolaeth ganlynol i gefnogi eu honiadau:

a cadarnhad bod y cyngor wedi sicrhau bod ei swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ar ei broses gwneud penderfyniadau beunyddiol a’r gwaith o gynnal a chadw cofnodion cyfrifyddu; a

b llythyr ymrwymo neu delerau ymgysylltu’r archwiliad mewnol a gyflwynwyd i’r archwilydd mewnol.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Y fframwaith atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau lleol
Atodiad 2 - Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol



# Atodiad 1 - Y fframwaith atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau lleol

## Y fframwaith atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau lleol

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) yn nodi'r fframwaith ar gyfer atebolrwydd ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Prif ddarpariaethau'r Ddeddf yw:

- mae'n rhaid i bob cyngor baratoi cyfrifon blynyddol ar 31 Mawrth bob blwyddyn;
- caiff y cyfrifon blynyddol hyn eu harchwilio. Ar gyfer 2013-14, penodwyd yr archwilydd gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- gall unigolion sydd â diddordeb yn y cyfrifon edrych dros y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol; a
- gall etholwyr lleol ofyn cwestiynau'r archwilydd a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon i'r archwilydd.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2005 yn cynnwys rhagor o fanylion am y darpariaethau uchod:

- mae'n rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno trafodion a balansau'r cyngor yn briodol neu'n deg;
- mae'n rhaid i'r cyngor gymeradwyo'r cyfrifon ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau terfynol yr archwilydd o'r archwiliad;
- ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau ac ar ôl i'r archwilydd ardystio'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r cyfrifon;
- mae'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i derfynau amser penodol; ac
- mae'n rhaid i gynghorau hefyd wneud trefniadau i aelodau o'r cyhoedd arfer eu hawliau archwilio o dan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi cyfrifoldebau'r archwilydd allanol i roi barn ar y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod).

Mae'r Cod yn nodi fframwaith sicrwydd cyfyngedig ar gyfer cynghorau lleol ag incwm a gwariant blynyddol o hyd at £1 miliwn er mwyn darparu lefel o sicrwydd sy'n gymesur â'r symiau o arian cyhoeddus sy'n cael eu rheoli gan gynghorau lleol.

O dan y Cod nid yw'n ofynnol i archwiliad llawn gael ei gynnal yn unol â safonau archwilio proffesiynol. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr allanol edrych ar y cyfrifon ac unrhyw wybodaeth ac esboniad ychwanegol a roddwyd. Yn ogystal â gwybodaeth a roddwyd gan y cynghorau eu hunain, mae'r archwilwyr yn ystyried gwybodaeth a roddwyd gan aelodau o'r cyhoedd a sylw yn y wasg ac ati, a ddaw i'w sylw.

# Atodiad 2 - Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| Honiad | Mae ateb cadarnhaol yn golygu bod y cyngor wedi |
|---|---|
| 1. Rydym wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith. |
| 2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | Gwneud trefniadau priodol ac wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu arian ac adnoddau'r cyhoedd yn ei ofal. |
| 3. Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r cyngor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol. | Gwneud y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud yn unig ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. |
| 4. Rydym wedi cynnig cyfleoedd priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn dan sylw archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y cyngor. |
| 5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r cyngor ac wedi delio â hwy'n briodol. |
| 6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a systemau rheoli'r cyngor drwy'r flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y cyngor. |
| 7. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | Ymateb i faterion a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. |
| 8. Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y cyngor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. |
| 9. Cronfeydd ymddiriedolaeth - yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. | Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru